| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO** |
| **DYDDIAD** | **20 MAI 2013** |
| **TEITL** | **RHEOLI MAN PARCIO NEUADD Y DREF, DOC FICTORIA A CEI GREAVES, PORTHMADOG, O DAN AMODAU A THELERAU GORCHYMYN PARCIO ODDI AR Y STRYD Y CYNGOR** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Galluogi'r Pwyllgor i ystyried gwrthwynebiadau i'r cynigion fyddai'n galluogi'r Cyngor i reoli a gorfodi parcio yn effeithiol ar y safleoedd dan sylw.** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo'r cynnig i gynnwys yr ardaloedd parcio dan sylw ar Orchymyn Cyngor Gwynedd (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 1997 Gorchymyn Amrywio (Nifer o Safleoedd) 2013** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Bydd yr aelodau'n ymwybodol fod y Cyngor yn gyfrifol am reoli nifer fawr o feysydd parcio o fewn y Sir. Mae meysydd parcio'r Cyngor yn hanfodol i economi'r ardal, ymwelwyr a thrigolion lleol sydd yn mynd i siopau, busnesau a mwynderau lleol.

1.2 Tra bod nifer o feysydd parcio dan awdurdod y Gwasanaeth Trafnidiaeth, sydd wedi'u dynodi'n feysydd parcio talu ac arddangos neu rhai rhad ac am ddim, mae asedau parcio eraill yn cael eu rheoli gan Adrannau eraill o fewn y Cyngor, er enghraifft Adrannau Economi a Chymuned ac Eiddo'r Cyngor.

1.3 Mae Adrannau'r Cyngor yn gweithio'n agos i sicrhau bod meysydd parcio'n cael eu rheoli a'u cynnal i'r safonau uchaf posib.

1.4 Mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i sicrhau y cynigir digon o fannau parcio i fodurwyr allu parcio'n ddiogel ac er mwyn sicrhau bod llwybrau mynediad a throedffyrdd sydd wedi'u dynodi i gerbydau a cherddwyr a'r rheini sydd â phroblemau symudedd yn cael eu cadw'n glir bob amser.

1.5 Fel arfer cyflawnir cydymffurfiaeth â rheoliadau parcio drwy orfodaeth, talu ac arddangos neu system trwydded parcio.

1.6 Gellir gorfodi meysydd parcio sydd wedi'u dynodi'n rhai talu ac arddangos dan Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 a rhoddir grym i Awdurdodau Priffyrdd lleol i reoli parcio a chodi ffi am barcio dan Ddeddf Rheoliadau Traffig y Ffordd 1984.

1.7 O bryd i'w gilydd, mae'r Cyngor yn adolygu ei stoc meysydd parcio ac, wedi hynny, yn ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol yn nhermau gweithredu newidiadau i statws y meysydd parcio dan sylw.

1.8 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar dri maes parcio. Bydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor er mwyn bwrw ymlaen â'r broses gyfreithiol i gyflwyno Gorchymyn Amrywio, a elwir yn Orchymyn Amrywio Cyngor Gwynedd 2013. Bydd y gorchymyn hwn yn rhoi grym i'r Cyngor reoli a gorfodi parcio yn effeithiol yn y lleoliadau y cyfeirir atynt.

1.9 Ymhellach, bydd y Gorchymyn yn caniatáu i'r Cyngor godi ffi am barcio a gorfodi'r rheolau parcio sydd wedi'u harddangos ar y safle.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Yn unol â'r gyfraith, yn ddiweddar fe wnaeth y Gwasanaeth Trafnidiaeth ymgynghori â chyrff statudol yn cynnwys y Gwasanaethau Brys, Cynghorau Tref ac Aelodau gyda'r bwriad o gynnwys y meysydd parcio a ganlyn ar Orchymyn Cyngor Gwynedd (Parcio Oddi ar y Stryd) (Nifer o Safleoedd) 2013.

1. **Maes Parcio Castle Hotel, Harlech** (CADW yw'r perchennog)
   **Statws:** *Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad ar yr ymgynghoriad cychwynnol. Bydd y maes parcio hwn yn cael ei gynnwys yn y gorchymyn.*
2. **Maes Parcio Talbot Square, Abermaw** *(rheolir gan Gyngor Gwynedd)*
   **Statws:** *Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad ar yr ymgynghoriad cychwynnol. Bydd y maes parcio yn cael ei gynnwys yn y Gorchymyn.*
3. **Maes Parcio Borth y Gest, Porthmadog** *(rheolir gan y Gwasanaeth Trafnidiaeth)*
   **Statws:** *Wedi'i dynnu oddi ar y rhestr oherwydd y nifer sylweddol o wrthwynebiadau a gafwyd ar y cam ymgynghori cychwynnol.*
4. **Neuadd y Dref, Bangor** *(rheolir gan Wasanaeth Ystadau'r Cyngor)*
   **Statws:** *Angen penderfyniad gan y Pwyllgor i fwrw ymlaen â'r broses gyfreithiol, sef hysbysebu'r cynnig yn ffurfiol*
5. **Maes Parcio Doc Fictoria, Caernarfon** *(rheolir gan Adran Economi a Chymuned y Cyngor)*
   **Statws:** *Angen penderfyniad gan y Pwyllgor i fwrw ymlaen â'r broses gyfreithiol, sef hysbysebu'r cynnig yn ffurfiol*
6. **Cei Greaves Bach, Porthmadog** *(rheolir gan Adran Economi a Chymuned y Cyngor)*
   **Statws:** *Angen penderfyniad gan y Pwyllgor i fwrw ymlaen â'r broses gyfreithiol, sef hysbysebu'r cynnig yn ffurfiol*

2.2 Yn sgil y ffaith bod Cyngor Dinas Bangor a Chynghorau Tref Caernarfon a Phorthmadog wedi gwrthwynebu i'r cynigion, gofynnir i'r Aelodau ystyried y gwrthwynebiadau a dymuniad y Cyngor i gynnwys y meysydd parcio dan sylw ar y Gorchymyn uchod.

2.3 Gobeithir y bydd Tabl 1 isod yn cynorthwyo'r Aelodau wrth wneud penderfyniad ynglŷn ag asedau parcio **4**, **5** a **6** y cyfeirir atynt fel y gall Swyddogion ymgynghori ymhellach ag Adran Gyfreithiol y Cyngor.

2.4 Er mwyn hwyluso'r cyfeiriadau, a wnewch chi gyfeirio at y cynlluniau lleoliad, a welir yn **Atodiad A**, gan nodi union safle'r ardaloedd parcio dan sylw ac at Dabl 1 isod, sy'n rhoi crynodeb byr o'r problemau sy'n codi ym mhob safle.

**Tabl 1**

| **Lleoliad** | **Adran / Gwasanaeth yn gyfrifol am yr ased parcio** | **Problemau parcio a godir gan ddefnyddwyr cyfreithlon** | **Gwybodaeth Bellach** |
|---|---|---|---|
| **Doc Fictoria, Caernarfon** | Adran Economi a Chymuned | • Methu dod o hyd i lefydd parcio gan fod pobl sy'n gweithio yn y dref yn parcio yno *drwy'r dydd*<br>• Mae'r ardal yn aml yn brysur iawn<br>• Nid yw'r bobl sy'n dymuno ymweld â mwynderau lleol yn medru parcio yn y lleoliad hwn e.e. yr harbwr, yr angorfeydd a'r amgueddfa | • Diogelwch cerddwyr yn y fantol oherwydd prysurdeb traffig y tu allan i'r meysydd parcio dynodedig<br>• Parcio ar "dir preifat" cyfagos yn bryder e.e. Clwb Hwylio Caernarfon<br>• Gofyn cael rheolau, arwyddion a gorfodaeth parcio er mwyn cynnal safonau parcio a diogelwch ar y ffyrdd<br>• Mae'r Briffordd Gyhoeddus sy'n rhedeg drwy'r ardal parcio yn aml yn prysuro – pryder os bydd argyfwng.<br>• Parcio heb awdurdod ar dir ym mherchnogaeth Clwb Hwylio Caernarfon, sydd gyferbyn â'r maes parcio. Mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gydag Aelodau Pwyllgor y Clwb ynghylch y cynnig. Os bydd y Gorchymyn yn cael ei selio, bydd Swyddogion yn trafod gyda'r Clwb Hwylio er mwyn rheoli parcio ar y tir cyfagos dan sylw fel y dangosir ar y Cynllun. |
| **Cei Greaves , Porthmadog** | Adran Economi a Chymuned | • Mae'r maes parcio'n llenwi, yn enwedig yn yr haf ac fe'i hystyrir yn ardal parcio cyfleus i ymwelwyr a thrigolion lleol<br>• Nid yw'r bobl sy'n dymuno ymweld â mwynderau lleol yn medru parcio yn y lleoliad hwn e.e. yr harbwr, yr angorfeydd a'r amgueddfa | • Yn y gorffennol, mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog wedi nodi y byddent yn cefnogi gwelliannau i reolaeth a darparu peiriant talu ac arddangos yn y lleoliad hwn.<br>• Gofyn cael rheolau, arwyddion a gorfodaeth parcio er mwyn cynnal safonau parcio a diogelwch ar y ffyrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Parcio Neuadd y Dref, Bangor.** | Adran Eiddo, Cyngor Gwynedd | • **CYFEIRIWCH AT YR ADRODDIAD PWYLLGOR SYDD YNGHLWM – ATODIAD B** | |

## 3. GWYBODAETH BELLACH

3.1 Oherwydd eu lleoliad, mae'r tri maes parcio dan sylw yn denu nifer eithriadol o uchel o ymwelwyr, ac mae gofyn rheoli hyn yn ofalus er mwyn sicrhau bod ymwelwyr yn parcio'n gyfrifol, yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau parcio.

3.2 O ran Doc Fictoria, Caernarfon, yn ôl yr Uned Morwrol a Pharciau Gwledig, mae parcio *drwy'r dydd* yn broblem sylweddol, a achosir yn bennaf gan fodurwyr sy'n parcio *drwy'r dydd* sy'n effeithio ar *drosiant* llefydd parcio, yn cynyddu prysurdeb traffig ac yn atal modurwyr cyfreithlon rhag defnyddio'r man parcio a'r mwynderau cyfagos.

3.3 Mae llythyr Cyngor Tref Caernarfon, dyddiedig 8 Chwefror 2013, yn nodi na ddylid gwneud unrhyw newidiadau. Nid oes gwybodaeth bellach wedi'i darparu.

3.4 Mae Maes Parcio Cei Greaves, Porthmadog yn cael problemau tebyg ond maent yn gwaethygu yn ystod yr haf. Dylid nodi bod rheoliadau parcio a pheiriant talu ac arddangos wedi'u gosod yn y lleoliad hwn yn 2012 yn dilyn trafodaethau gyda Phwyllgor Harbwr y dref.

3.5 Mae Llythyr o wrthwynebiad gan Cyngor Tref Porthmadog, dyddiedig 18 Chwefror 2013, yn honni bod y maes parcio dan sylw yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan drigolion lleol ac, oherwydd y diffyg llefydd parcio rhad ac am ddim yn y dref, roeddent yn teimlo y byddai'r cynnig i godi ffi am barcio yn effeithio ar bobl leol yn bennaf.

3.6 Mae'r problemau a geir yn Neuadd y Dref, Bangor yn cynnwys camddefnydd o'r man parcio gan aelodau'r cyhoedd sy'n gweld y lle fel man parcio cyfleus, er enghraifft pobl sy'n siopa ac yn gweithio yn y ddinas. O ganlyniad, mae ymwelwyr cyfreithlon â'r adeilad, sydd yn aml angen mynediad i wasanaethau hanfodol a chymorth lles yn ystod y dydd, yn cael eu hatal rhag parcio yno. Felly, mae mesurau angenrheidiol i wella'r sefyllfa wedi'u hadnabod. Adroddwyd ar y materion hyn i'r Pwyllgor perthnasol ar 14 Ionawr 2013 ac mae copi o'r adroddiad yn Atodiad B.

3.7 Mae Cyngor Dinas Bangor wedi gwrthwynebu i'r bwriad mewn e-bost dyddiedig 11 Mawrth 2011, gan nodi y dylai parcio yn Neuadd y Dref fod ar gyfer ymwelwyr â'r adeilad a Deiliaid Bathodynnau Glas er mwyn gwneud iawn am y diffyg darpariaeth parcio i'r anabl sydd yn y Ddinas.

3.8 Yn sgil y ffaith bod Cyngor Dinas Bangor wedi gwrthwynebu'r bwriad, yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor i gefnogi'r mesur, teimlir y dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r gwrthwynebiadau er mwyn ystyried y mater ymhellach.

## 4. CYNNIG

4.1 Gan ystyried y wybodaeth a ddarparwyd ac yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor, mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i fwrw ymlaen â'r cynnig i'r cam nesaf, sef hysbysebu'r cynnig yn ffurfiol a chynnwys y meysydd parcio sydd wedi'u rhestru ar Orchymyn Cyngor Gwynedd (Parcio Oddi ar y Stryd) (Nifer o Safleoedd) 2013.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r cynnig.

**ATODIAD A:** Cynlluniau
**ATODIAD B** Adroddiad Pwyllgor 140113